Adroddiad Blynyddol
y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth
i'r Prif Weinidog a
Gweinidogion Albanaidd
ar gyfer 2006-2007

HC 713
SE/2007/126

Prif Gomisiynydd:
Y Gwir Anrhydeddus Syr Christopher Rose

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog
yn unol ag adran 107(3)
o Ddeddf yr Heddlu 1997

Gorchmynnwyd i gael ei argraffu gan
Dŷ'r Cyffredin ar 16 Gorffennaf 2007

Cyflwynwyd i Senedd yr Alban gan y
y Gweinidogion Albanaidd
Gorffennaf 2007

HC 713
SE/2007/126
Llundain: The Stationery Office £13.50

© Crown Copyright 2007
Caniateir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (gan eithrio unrhyw Arfbais Brenhinol a logos adrannol) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled bod y testun yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a ddim yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron ac enwi teitl y ddogfen. Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddogfen hon gael eu cyfeirio at
The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk.

1.Cyflwyniad

1.1
Dyma fy adroddiad cyntaf ers cychwyn fy swydd fel y Prif Gomisiynydd Goruchwyliaeth yng Ngorffennaf 2006, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007.

1.2
Fy nyletswydd i yw adolygu:

(a) gweithrediad swyddogaethau dan Rhan III Deddf yr Heddlu 1997 ('Deddf 1997');

(b) (heblaw mewn perthynas â Rhyngdoriad Cyfathrebiadau a'r Gwasanaethau Cudd-ymchwil) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a osodwyd gan neu o dan Rhan II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 ('RIPA'); a

(c) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a osodwyd gan neu o dan Ddeddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 2000 ('RIP(S)A 2000').

1.3
Mae hyn yn cynnwys pob gweithgaredd gudd (gan eithrio rhyngdoriad ffôn a llythyr) a gyflawnir gan yr awdurdodau cyhoeddus, heb gynnwys y gwasanaethau cudd-wybodaeth. Er bod Rhan III RIPA, sy'n ymwneud â gwybodaeth electroneg wedi'i ddiogelu, hefyd o fewn fy nghyfrifoldeb statudol i, nid yw eto mewn grym. Rwyf yn trafod hyn ymhellach yn fy arolwg o'r flwyddyn.

1.4
Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynwyr Gwyliadwriaeth ('y Comisiynwyr') i werthuso pob awdurdod ar gyfer ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol, naill ai cyn neu yn union wedi iddynt gael eu rhoi. Mae hawl apelio yn erbyn eu penderfyniadau i mi fel y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth.

1.5
Fel rhan o'm dyletswydd o dan y tair Deddf ('y Deddfau') i gyflwyno adroddiad blynyddol, rwyf yn parhau i baratoi adroddiad cyfunol.

2.
Arolwg o'r flwyddyn

2.1
Mae Rhan III Deddf 1997 a Rhan II RIPA a rhannau perthnasol RIP(S)A i gyd wedi bod mewn grym bellach ers saith neu wyth mlynedd.

2.2
Mae'r ystadegau ar awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol wedi eu hamlinellu ym mharagraff 6 isod. Rwyf yn parhau'n fodlon fod yr awdurdodau hyn yn derbyn sylw uchel gan yr awdurdodau cyhoeddus.

2.3
Mae'r nifer o awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig a Ffynonellau Cudd-Wybodaeth Ddynol ('CHIS') wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7 isod. Nodaf yn arbennig y nifer uwch o awdurdodiadau gwyliadwriaeth gyfeiriedig a roddwyd gan awdurdodau cyhoeddus heblaw asiantaethau gorfodaeth cyfraith, gyda bron i ddwywaith y nifer o awdurdodiadau yn cael eu rhoi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Adroddodd fy rhagflaenydd y flwyddyn ddiwethaf bod tueddiad i beidio â chydnabod y ffynonellau CHIS a ddylai gael eu cydnabod. Mae'r problemau hyn yn parhau. Mae termau eraill, fel tyst gorchwyl ("tasked witness"), yn parhau i gael eu defnyddio gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith sy'n ceisio ffordd arall, efallai'n llai dwys o ran adnoddau, o reoli CHIS tebygol.

2.4
Ymysg y materion sy'n parhau i achosi pryder imi mae rhai na efallai a ragwelwyd gan y Senedd: mae datblygiad technoleg Adnabyddiaeth Awtomatig Rhif Car ('ANPR') yn parhau i godi materion na ragwelwyd gan ddeddfwriaeth bresennol, ac ni fwriadwyd gan y ddeddfwriaeth i'r cynghreiriau strategol rhwng mwy nag un awdurdod a ffurfiwyd ar gyfer cyfuno gallu, arbenigedd ac effeithlonrwydd gweithredol, fod yn un awdurdod.

2.5
Yn ystod y flwyddyn cyflawnodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft y Côd Ymarfer ar gyfer archwilio gwybodaeth electroneg wedi'i ddiogelu, sy'n trafod ymarferiad pwerau a dyletswyddau dan Rhan III RIPA. Fe'm cynghorir fod yr adborth a dderbyniwyd wedi ei gymryd i ystyriaeth mewn Côd Ymarfer diwygiedig a gyflwynir i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol trwy Orchymyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd o'r Gorchymyn â'r Côd hwn, bydd Gorchymyn pellach yn cael ei gyflwyno, gan weithredu darpariaethau Rhan III. Fe ragwelir y bydd Rhan III a'r Côd yn dod i rym ar 1 Hydref 2007.

2.6
Rwyf yn trafod yr Adolygiad RIPA ym mharagraff 12 isod.

3.
Y gosodiadau statudol

3.1
Mae amcanion a phrif osodiadau Rhan III Deddf 1997 a Rhan II RIPA a RIP(S)A sy'n berthnasol i arolygiaeth gwyliadwriaeth gudd, ynghyd â rhestr o swyddogaethau statudol y Comisiynwyr ar gael ar wefan yr SCG, sef www.surveillancecommissioners.gov.uk, a

hefyd wedi eu hamlinellu yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 i sylw'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban.

3.2
Yn dilyn gohirio archwiliad y cyrff newydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ('HMRC') a'r Asiantaeth Trosedd Ddifrifol wedi ei Threfnu ('SOCA') y flwyddyn ddiwethaf er mwyn rhoi amser iddynt ymgyfarwyddo â'u swyddogaethau newydd, cyflawnwyd yr arolygiadau cyntaf o'r awdurdodiadau cyhoeddus hyn yn Hydref 2006.

3.3
Rhoddodd Deddf yr Heddlu, Trefn Gyhoeddus a Chyfiawnder Troseddol (yr Alban) 2006, Offeryn Statudol 2007/1098, statws statudol i'r Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Albanaidd, gan newid Rhan III Deddf 1997 a RIP(S)A er mwyn rhoi'r pŵer i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i awdurdodi gwyliadwriaeth ymwthiol ac ymyrraeth eiddo. Newidiodd y Mesur enw'r Asiantaeth i'r Asiantaeth Orfodaeth Trosedd a Chyffuriau Albanaidd, tra y darparodd Offeryn Statudol Albanaidd 2006/466, a ddaeth i rym ar 5 Hydref 2006, ar gyfer penodiad Swyddog Awdurdodi ar radd "PO7" yn ychwanegol at lefel uwcharolygydd heddlu.

3.4
Daeth Offeryn Statudol 2007/934 i rym ar 16 Ebrill 2007, gan ymestyn i'r Alban oruchwyliaeth gyfeiriedig a phwerau awdurdodi o'r awdurdodau cyhoeddus DU a restrir yn yr Atodlen, gan gynnwys y Comisiwn Hapchwarae, yr Awdurdod Trwyddedu 'Gangmasters' a'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdodau hynny a restrir geisio awdurdod dan RIPA 2000 hyd yn oed os yw'r weithgaredd i gymryd lle yn yr Alban.

4.
Trefniant busnes yr SCG

4.1
Mae fy nyletswydd statudol i arolygu yn parhau i gael ei chyflawni trwy gyfrwng cyfrifoldeb Comisiynwyr dros arolygiaeth awdurdodiadau, arolygiadau gan Gomisiynwyr ac Arolygwyr Cynorthwyol, a thrwy ymweliadau arolygiad dilynol gan Gomisiynwyr i asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Mae Prif Swyddogion yn ymateb yn ffafriol i'r broses arolygiad ynghyd ag i ymweliadau fy Nghomisiynwyr, gan gyfri'r cyfle i drafod materion deddfwriaethol ac ymarferol yn un defnyddiol.

4.2
Mae'r cyfrifoldeb dros arolygu'r mwyafrif o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau ac awdurdodau lleol yn nwylo'r Comisiynwyr Cynorthwyol, gyda fy arolygwyr yn eu cynorthwyo o bryd i'w gilydd.

4.3
Mae fy arolygwyr wedi arolygu'r holl luoedd heddlu yn y Deyrnas Unedig, ynghyd ag asiantaethau gorfodaeth cyfraith ac adrannau llywodraethol mawr eraill gan gynnwys

Gwasanaeth Carchar EM, a'r Adrannau Trafnidiaeth, Masnach a Diwydiant, a Gwaith a Phensiynau. Rwyf wedi adolygu'n blaenoriaethau arolygu unwaith eto'r flwyddyn hon, ac rwyf yn fodlon y byddant yn parhau i sicrhau arolygiad cywir o'r defnyddwyr sylweddol gweithgaredd gudd hyn.

4.4
Cynhaliwyd cyfarfodydd comisiynwyr dair gwaith y flwyddyn hon, ac fe'u mynychwyd hefyd gan y Gomisiynwyr Cynorthwyol, Arolygwyr, yr Ysgrifennydd i'r SCG, a rheolwyr o'm Swyddfa. Maent yn parhau i fod yn werthfawr oherwydd eu bod yn galluogi'r Comisiynwyr i gymryd penderfyniadau cyfunol ynglŷn â materion yn ymwneud â dehongliad. Mae materion sy'n deillio o arolygiadau a chyfarfodydd gyda'r awdurdodau cyhoeddus hefyd yn cael eu trafod, er mwyn sicrhau dynesiad cyson. Yn achlysurol cyhoeddir canllawiau er mwyn hysbysu awdurdodau cyhoeddus o farnau'r comisiynwyr ar faterion dehongli ac ymarferiad.

4.5
Mae'r Prif Arolygydd a'r Ysgrifennydd i'r SCG yn parhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda chyrff cyhoeddus eraill ynghyd â digwyddiadau hyfforddiant cenedlaethol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a chydymffurfiad gyda hi. Mae'r Prif Arolygydd a'r Ysgrifennydd hefyd wedi cynrychioli fy Swyddfa mewn seminarau a chynadleddau priodol.

4.6
Yn ystod y flwyddyn trefnwyd tri chyfarfod grŵp ymgynghorol gorfodaeth cyfraith a dau gyfarfod ymgynghoriad awdurdod lleol gan yr Ysgrifennydd i'r SCG. Mynychir y rhain gan gynrychiolwyr rhanbarthol o'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar draws y DU, ac maent yn parhau i gael eu croesawu. Trafodir materion yn ymwneud â dehongliad yn rheolaidd, a lle bo angen, trosglwyddir hwy i sylw'r Comisiynwyr.

4.7
Diweddarir gwefan yr SCG yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus a chynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan RIPA a deddfwriaeth gysylltiedig ynghyd â darparu dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r SCG yn gweithio fel corff arolygiaeth.

4.8
Ymwelodd 22,782 ymwelwr â'r wefan yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o fwy na 3,200 o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, gyda 20,815 yn ymwelwyr gwahanol. Roedd yr adborth gan awdurdodau lleol ac ymwelwyr eraill i'r wefan newydd, sy'n cynnwys cyfraith achos berthnasol yn bositif iawn, ac yn parhau i gael ei groesawu. Y tudalennau mwyaf poblogaidd wedi'r Dudalen Gartref yw'r tudalennau Cyngor ac Arweiniad, Amdanon Ni a Dolennau Defnyddiol. Mae'n ymddangos mai'r peiriant chwilio "Google" yw'r llwybr mwyaf poblogaidd i'n gwefan, gyda chyfeiriadau o wefannau'r "Swyddfa Gartref" a'r "Tribiwnlys Pwerau Ymchwiliol yn ail a thrydydd pell yn ôl eu trefn.

4.9
Ar gyfer y drydedd flwyddyn rwyf wedi crynhoi gwariant yr SCG am y flwyddyn dan sylw. Gellir dod o hyd i'r grynodeb yn Atodiad F. Rwyf yn falch o gyhoeddi fod ein gwariant unwaith eto o fewn ein cyllideb gan i'm hysgrifennydd gadw llygad fanwl arno. Mae ein siart cyfundrefnol wedi ei gynnwys yn Atodiad G, gyda mwyafrif ein costau staff yn gostau staff.

5.
Materion arbennig yn ymwneud â'r SCG

Apeliadau gan swyddogion awdurdodi

5.1
Ni chyflwynwyd unrhyw apêl gan swyddog awdurdodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Riportio anghysondebau

5.2
Dyma'r drydedd flwyddyn y gofynnwyd i Brif Swyddogion fy hysbysu o'r holl ymgyrchoedd cudd lle na chydymffurfiwyd ag anghenion statudol, a hefyd o achosion sy'n methu yn y Llys oherwydd diffygion mewn goruchwyliaeth gudd. Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau fod camgymeriadau a chamweddau yn dod i'm sylw cyn gynted â'u bod yn digwydd, gan olygu y gallant gael eu harchwilio, lle bo angen, gan un o fy Arolygwyr naill ai ar unwaith neu yn ystod yr arolygiad nesaf o'r asiantaeth dan sylw.

5.3
O'r 67 gweithgaredd wyliadwriaeth heb ei hawdurdodi a ddaeth i'm sylw'r flwyddyn hon trwy gyfrwng asiantaethau gorfodaeth cyfraith, rwyf yn bryderus fod y mwyafrif ohonynt yn dal i ddigwydd oherwydd na hysbyswyd y rhai sy'n cyflawni'r gweithdrefnau o amodau'r awdurdodiadau. Rwyf hefyd yn bryderus nad yw pob asiantaeth yn fy hysbysu o'r holl doriadau mewn perthynas â CHIS a goruchwyliaeth uniongyrchol pan y darganfyddir gweithgaredd heb ei chofnodi gan fy Arolygwyr.

Riportio i'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion Albanaidd

5.4
Ni fu angen imi riportio i'r Prif Weinidog nac i Weinidogion Albanaidd yn ystod y flwyddyn ar unrhyw fater yn ymwneud â'm cylch gwaith.

5.5
Mae'n amlwg y bernir weithiau fy adroddiadau arolygiad allan o'u cyd-destun. Dylid atgoffa pob awdurdod cyhoeddus nad yw adroddiadau yn cynrychioli dadansoddiadau manwl. Mae maint yr adnoddau sydd ar gael imi yn golygu na all fy arolygiadau fod yn fwy na chiplun ar eiliad arbennig, gan gynrychioli canfyddiadau fy Nghomisiynwyr Goruchwyliaeth Cynorthwyol a'm Harolygwyr yn ystod arolygiadau sydd yn para, fel arfer, dim mwy na diwrnod ac yn anaml iawn yn hirach na phum niwrnod. Yn ystod arolygiadau mae pob agwedd o weithgaredd gudd yn cael ei harchwilio, ac mae'r canfyddiadau yn adlewyrchu'r dystiolaeth o hapsampl fechan a chyfweliadau gyda rheolwyr ac ymarferwyr. Maent yn adolygu gweithgaredd gudd awdurdod ers yr arolygiad diwethaf, ond ni allaf ardystio cydymffurfiad dyfodol.

5.6
Yn ychwanegol, ni ddylid rhoi pwyslais gormodol ar y barnau a fynegir gan fy arolygwyr yn ystod arolygiadau. Er eu bod yn fwy gwybodus na'r mwyafrif, ac â phrofiad dihafal o ran cymharu'r gwahanol ffyrdd y cyflawnir gweithgareddau cudd gan y cannoedd o wahanol awdurdodau, nid oes ganddynt gymwysterau cyfreithiol. O ganlyniad, fe fyddai hi'n annoeth iawn i unrhyw awdurdod ddibynnu ar farnau a ddatganwyd gan fy arolygwyr heblaw a nes i'w hadroddiadau gael eu harnodi gennyf i. Rwyf bellach wedi cynnwys gwadiad i'r perwyl hwn ar bob adroddiad.

Newidiadau staff

5.7
Ymddeolodd HH Jeremy Fordham fel Comisiynydd Gwyliadwriaeth Cynorthwyol ar 30 Ebrill 2007. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddo am y ffordd effeithlon a hwyliog y bu iddo gyflawni ei ddyletswyddau ers chwe blynedd. Caiff ei olynu ar 1 Gorffennaf 2007 gan HH Norman Jones QC, sef Cofiadur Leeds yn flaenorol.

5.8
Ar fy nghyfarwyddyd i, adolygwyd strwythur rheoli yr Ysgrifenyddiaeth yn ystod y flwyddyn gan yr Ysgrifennydd, a chytunwyd ar newidiadau bychain i'r strwythur graddio gyda'r Swyddfa Gartref. Pwrpas hyn oedd cydnabod y newid sylweddol yn y llwyth a phwysiad gwaith yn ddiweddar. Nid oedd y newidiadau hyn wedi dod i rym ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon, ac mae'r deiliad presennol wedi ymdopi'n gampus.

Cydnabyddiaeth

5.9
Hoffwn fynegi yn y fan hon fy niolch i bob aelod o'r SCG ac yn fwyaf arbennig i'm Prif Arolygydd Goruchwyliaeth, Sam Lincoln, a'r Ysgrifenyddes i'r SCG, Jennifer Riach, am eu cefnogaeth werthfawr yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Gomisiynydd Goruchwyliaeth. Mae fy niolch hefyd i Joanne Breen yn Adran Diogelwch Gwarchodol, Swyddfa Gogledd Iwerddon, ac i staff Rhanbarth Heddlu 1 Adran Gyfiawnder

Gweithrediaeth yr Alban, sydd wedi darparu cymorth gweinyddol amhrisiadwy i'r Comisiynwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

5.10
Bûm yn ddigon ffodus i etifeddu strwythurau penigamp fy rhagflaenydd, Syr Andrew Leggatt, a ddyfeisiwyd ganddo ef ac a ddefnyddir gennyf innau ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau adolygu statudol. Byddaf yn parhau i ddefnyddio'r strwythurau hyn, gan eu diwygio o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

6.
Ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol

6.1
Mae pwerau a dyletswyddau'r Comisiynwyr o ran archwilio a phenderfynu pa un ai y dylid awdurdodi awdurdodiadau o dan Ddeddf 1997, RIPA neu RIP(S)A yntau peidio, yn cael eu hesbonio yn Adroddiad Blynyddol fy rhagflaenydd ar gyfer 2000-2001 ac maent wedi eu cynnwys ar wefan yr SCG.

Ystadegau

6.2
Mae ystadegau ar gyfer awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf wedi eu cynnwys yn y tablau yn Atodiadau A a B. O ran ymarferiadau gweithredol asiantaethau gorfodaeth cyfraith, rwyf yn fwriadol heb gynnwys nifer yr awdurdodiadau ar gyfer pob asiantaeth, gan y gallai hyn fod yn gamarweiniol. Troseddau yn ymwneud â delio mewn cyffuriau, llofrudd a drylliau tân yw prif dargedau awdurdodiadau'r flwyddyn hon. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn ceisio am awdurdodiad ymyrraeth eiddo er mwyn ymchwilio herwgipiad, sef cynnydd o 52% o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Ymyrraeth eiddo

6.3
Ac eithrio adnewyddiadau, cyhoeddwyd 2,311 awdurdod ymyrraeth eiddo yn ystod 2006-2007, sef nifer cyffelyb i'r flwyddyn flaenorol (2,310). Adnewyddwyd 481 awdurdodiad yn ystod 2006-2007, o'i gymharu â 475 y flwyddyn flaenorol.

6.4
Bu 216 achos lle y defnyddiwyd gosodiadau brys o'r math a ganiateir gan ddeddfwriaeth. Bu pedwar achos hefyd o awdurdodiad yn cael ei arwyddo'n gywir yn absenoldeb y Prif Arolygwr. Y flwyddyn flaenorol roedd y ffigyrau hyn yn 195 ac un yn ôl eu trefn. Mae'r

cynnydd bychan yn y nifer o achosion brys yn ganlyniad, mae'n debyg, i'r nifer uwch o ymchwiliadau i mewn i herwgipiad a gyfeiriwyd atynt eisoes.

6.5
Defnyddiodd tair asiantaeth gorfodaeth cyfraith yng Nghymru a Lloegr y darpariaethau brys yn fwy nag unrhyw lu arall yn y DU: rhoddwyd rhwng 13-18% o'u cyfanswm awdurdodiadau eiddo'r flwyddyn hon yn llafar fel achosion brys. Byddwn yn monitro pob un o'r lluoedd hyn yn agos er mwyn sicrhau nad yw'r darpariaethau brys yn cael eu camddefnyddio.

6.6
Dilëwyd pedwar awdurdodiad lle na chwrddwyd â'r prawf angenrheidrwydd. Mae hyn yn debyg i'r nifer ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf (pedwar). Y flwyddyn hon hefyd gwelwyd dau achos annilys nad oedd yn bosib eu dileu na'u diddymu oherwydd nad oeddent wedi eu cynnwys yn y Ddeddf berthnasol.

Gwyliadwriaeth ymwthiol

6.7
Rhoddwyd 350 awdurdod gwyliadwriaeth ymwthiol yn ystod 2006-2007, sy'n cynrychioli gostyngiad arall o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol: 435 yn ystod 2005-06 a 461 yn 2004-05. Mae rhai asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn parhau i leisio pryderon ynglŷn â'r diffyg adnoddau i hyfforddi a defnyddio staff: mae hyn yn arwain at ddefnydd isel o wyliadwriaeth ymwthiol a'r defnydd yn hytrach o ddulliau sy'n defnyddio llai o adnoddau. Mae adnewyddiadau awdurdodiadau yn parhau'n sefydlog, gyda 88 adnewyddiad yn cael ei roi'r flwyddyn hon a 94 yn 2005-06.

6.8
Defnyddiwyd gosodiadau brys mewn 11 awdurdod yn unig y flwyddyn hon, ac ni fu'n rhaid arwyddo'r un ohonynt yn absenoldeb y Prif Swyddog. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, pan oedd y niferoedd yn 25 a 0 yn ôl eu trefn. Mae hyn yn gyson gyda'r nifer llai o awdurdodiadau gwyliadwriaeth ymwthiol a roddwyd yn gyffredinol.

7.
Gwyliadwriaeth gyfeiriedig a CHIS

Ystadegau

7.1
Cafodd ystadegau ar gyfer y defnydd o oruchwyliaeth gyfeiriedig a CHIS eu darparu gan yr holl asiantaethau gorfodaeth cyfraith a'r mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus eraill.

Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

7.2
Arwyddodd asiantaethau gorfodaeth cyfraith 19,651 awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn ystod y cyfnod rhwng 01.04.06 a 31.03.07, gyda 2,526 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae hyn o'i gymharu â 23,628 a 3,073 y flwyddyn flaenorol, gan ddynodi gostyngiad sylweddol yn nefnydd y pwerau hyn. Pryderaf fod y gostyngiad yn y defnydd o'r pwerau yn rhannol yn ganlyniad i'r diffyg buddsoddiad gan rhai asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn hyfforddiant eu swyddogion mewn ymwybyddiaeth RIPA, ac yn rhannol i'r defnydd o ddulliau plismona eraill pan y credir nad oes angen awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

7.3
Arwyddwyd 12,494 awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn, gyda 1,800 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r fath bwerau, gyda'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn 6,924 a 1,340 yn ôl eu trefn. Mae'r cynnydd hwn heb unrhyw amheuaeth yn deillio o'r ffaith fod awdurdodau lleol ac adrannau llywodraethol eraill bellach yn deall y ddeddfwriaeth berthnasol yn well a ni allant gael eu cyfri mwyach yn ddefnyddwyr isel fel yn y gorffennol.

CHIS

7.4
Penodwyd 4,373 CHIS gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn ystod y flwyddyn; diddymwyd 4,800 yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys rhai a benodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol); ac roedd 3,705 yn weithredol ar ddiwedd Mawrth 2007. Y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 4,559, 5,211 a 4,075 yn ôl eu trefn, gan awgrymu lleihad bychan yn nefnydd ffynonellau.

7.5
Yn ystod yr un cyfnod penodwyd 429 CHIS gan awdurdodau lleol ac Adrannau Llywodraeth eraill. Diddymwyd 345 o'r rhain yn ystod y flwyddyn ac roedd 143 yn weithredol ar ddiwedd Mawrth 2007. Mae hyn yn cymharu â 437, 269 a 151 yn ôl eu trefn y flwyddyn ddiwethaf, sef defnydd eithaf cyson yn y defnydd o'r pwerau hyn, sydd yn llai cyfarwydd i awdurdodau lleol yn arbennig.

7.6
Mae ymchwiliadau a pholisi yn ymwneud â gwyliadwriaeth gyfeiriedig a CHIS yn parhau i gael eu harchwilio a'u trafod fel rhan o'r broses arolygiad. Mae materion dehongliadol ac ymarfer hefyd yn cael eu trafod pan fo'r asiantaethau hyn yn cyfarfod neu'n ysgrifennu at Ysgrifennydd yr SCG er mwyn cyflwyno materion o bwys i'r Comisiynwyr am farn gyfunol neu arweiniad.

8.

Arolygiadau asiantaethau gorfodaeth cyfraith

8.1
Yn yr un modd â'm rhagflaenydd, defnyddiaf y term 'asiantaethau gorfodaeth cyfraith' i gyfeirio at y cyrff hynny sydd â'r awdurdod i ddefnyddio goruchwyliaeth ymwthiol (gweler Atodiad E). Fel yn y gorffennol, arolygir y defnyddwyr mawr gweithgaredd gudd hyn yn flynyddol. O ganlyniad i'r broses o 'normaleiddio' yng Ngogledd Iwerddon, nid wyf bellach yn arolygu unrhyw unedau milwrol yno.

8.2
Yn gyffredinol fe'm bodlonwyd gyda'r safonau gwell ym mhob asiantaeth orfodaeth cyfraith. Mae'r gwelliannau a gyfeiriwyd atynt gan fy rhagflaenydd y flwyddyn ddiwethaf, sy'n deillio o sefydliad eang y Swyddfeydd Awdurdodau Cudd (CAB) i reoli a goruchwylio awdurdodiadau, wedi parhau. Rwyf o'r farn nad oes angen i hwn fod yn uned unigol bob amser oherwydd nid yw'n ddoeth, mewn nifer fechan o achosion, i weithgaredd sensitif iawn fod yn agored i gyfaddawd. Lle bo arolygiaeth yn wasgarog, rwyf wedi mynnu fod monitro tynn iawn ar lefel weithredol uwch trwy gyfrwng cofnod unigol adferadwy canolog.

8.3
Roeddwn yn falch o nodi'r cynnydd yn y cyrsiau Swyddog Awdurdodi a weithredir gan yr Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol, naill ai yn Wyboston neu ar safleoedd heddlu. Rwyf hefyd wedi bod yn dyst i'r hyfforddiant o safon uchel iawn a ddarperir gan rai o'r heddluoedd mwy. Canlyniad yr hyfforddiant hwn yw bod nifer gynyddol o Swyddogion Awdurdodi yn prosesu'r ceisiadau a gyflwynir iddynt yn y dull cywir. Ar y llaw arall, mae'r effeithlonrwydd uwch hyn hefyd yn golygu fod perfformiad gwael swyddogion sydd heb eu hyfforddi yn dod yn fwy amlwg, gan danlinellu'r pwyslais parhaol sydd angen ei roi ar yr agwedd hon o allu. Bydd adolygu hyfforddiant yn parhau i fod yn rhan bwysig o fy arolygiadau ac rwyf yn disgwyl i swyddogion uwch arwain y ffordd o ran sicrhau fod Swyddogion Awdurdodi presennol a dyfodol yn derbyn hyfforddiant addas.

8.4
Mae'r modd y dewisir Swyddogion Awdurdodi hefyd yn faes sydd angen ei ystyried yn fwy manwl. Rwyf wedi atgoffa swyddogion uwch fod y rheng a'r radd swyddog a ragnodir gan y Statud yn angen lleiafswm. Dylid sicrhau nad yw hyn yn arwain at benodiad swyddogion sydd heb y profiad angenrheidiol ar gyfer barnu'n gywir neu sydd â thasgau eraill cystadleuol i'w cyflawni. Mae'r penodiadau hyn yn ganolog i oruchwyliaeth a rheolaeth gudd, ac mae'r maint cyfrifoldeb sydd ynghlwm yn sylweddol. Mae rhai lluoedd yn arbrofi gyda swyddogion sydd yn Swyddogion Awdurdodi fel eu prif gyfrifoldeb, a byddaf yn monitro effeithlonrwydd yr arbrofion hyn. O ran lluoedd eraill, rwyf yn annog adnabyddiaeth gynnar a hyfforddiant Swyddogion Awdurdodi dyfodol fel dulliau o gynnal safonau.

8.5
Er nad ydynt wedi eu paratoi yn llwyr, rwyf yn hyderus fod trefniadau effeithlon ar gyfer trin, storio a dinistrio deunydd a feddiannwyd trwy gyfrwng goruchwyliaeth gudd wedi gwella yn y rhan fwyaf o luoedd. Byddaf yn parhau i fonitro'r agwedd hon o reolaeth yn fanwl.

8.6
Fel fy rhagflaenydd, sylwais ar welliant parhaol gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith o ran drafftio ceisiadau a hysbysiadau i Gomisiynwyr. Ond mae ailadrodd diangen a chudd-wybodaeth amleiriog yn parhau i adlewyrchu'n wael ar drefniadau arolygiaeth. Mae'r ddealltwriaeth o gyfatebolrwydd yn parhau'n wael ar y cyfan, yn arbennig ymysg ymgeiswyr. Rwyf wedi atgoffa'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni a monitro gweithgaredd gudd fod y ddogfennaeth wedi ei dylunio i wrthsefyll archwiliad barnwrol. Tra y gall hyn fod yn anghyfleus, mae llawer o gwynion ynglŷn â biwrocratiaeth yn gamarweiniol, ac mae ailadroddiad diangen a geiriogrwydd yn arwain at fiwrocratiaeth hunanwythol.

8.7
Roedd y cyhoeddiad na fyddai lluoedd yng Nghymru a Lloegr yn uno wedi'r cwbl yn syndod i lawer ohonynt. Gorfodwyd y rhai a oedd wedi oedi penderfyniadau er mwyn datrys argymelliadau pwysig o adolygiadau blaenorol, neu a oedd wedi defnyddio'r cyfuniad fel rheswm dros beidio â mabwysiadu cyfundrefnau mwy ufudd, i ail-ystyried. Rwyf yn deall y pwysau y mae newidiadau mewn polisi yn ei achosi, a byddaf yn oddefgar tuag at ambell i oediad, ond byddaf yn monitro'r sefyllfa'n agos i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg cydymffurfio annerbyniol.

8.8
Er y byddaf yn parhau i ymateb yn bositif i alwadau am arweiniad ar faterion arbennig, rwyf am ail-ategu penderfyniad fy rhagflaenydd i beidio â chyhoeddi rhestr flynyddol o'r ymarferion drwg a da a nodwyd yn ystod yr arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Pa fodd bynnag, gan y gwelwyd cynnydd ym maint yr arweiniad anghywir gan ffynonellau eraill mewn cyflwyniadau ac erthyglau, byddaf, lle bo hynny'n addas, yn herio cyngor a fyddai'n arwain, pe dilynid ef, at feirniadaeth gennyf i. Parhaf i annog asiantaethau gorfodaeth cyfraith i geisio cyngor eu cynghorwyr cyfreithiol eu hunain yn y lle cyntaf.

8.9
Mae'r ffaith i rai heddluoedd gyflwyno'r term 'tyst gorchwyliedig' ('tasked witness') yn hytrach na'r term cywir a chydnabyddedig gan y gyfraith, sef 'ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol' yn achos pryder imi. Mae'r unigolion hyn wedi cyfrannu at sefydlu neu gynnal perthynas gudd, ac nid wyf yn argyhoeddedig fod y trefniadau ar gyfer eu lles, diogelwch a'u rheolaeth o'r safon angenrheidiol yn ôl y gyfraith. Nid yw'r rhesymau dros gyflwyno'r term hwn yn glir, ond mae'n ymddangos imi y gallai fod yn ganlyniad i'r diffyg swyddogion hyfforddedig neu anwybodaeth swyddogion ymchwiliol uwch. Byddaf yn parhau i feirniadu'r term, a phan fo hynny'n addas, amhriodoldeb y weithgaredd y gall gyfeirio ati.

8.10
Anogwyd defnyddio meddalwedd i brosesu dogfennaeth RIPA gan y Swyddfa hon, ac ar y cyfan rwyf yn fodlon gyda'r gwelliannau sy'n dilyn yn sgil y defnydd hwn. Pa fodd bynnag, mae'r rhaglenni meddalwedd weithiau'n rhwystro datblygiadau newydd ac yn aml hefyd cynhwysiad gweithgaredd a ystyrir yn rhy sensitif oherwydd yr ofn o gyfaddawd. Mewn un achos, ni lwyddwyd i weithredu arbrawf llwyddiannus i leihau nifer y ffurflenni oherwydd nad oedd hi'n bosib uwchraddio'r feddalwedd. Mewn achosion eraill mae'r feddalwedd yn mynnu bod manylion yn cael eu mewnbynnu sydd ddim yn gydymffurfiol (er enghraifft, dyddiadau). Datganodd y Comisiynwyr Goruchwyliaeth fod y defnydd o lofnodion electroneg yn dderbyniol, cyn belled bod y system yn achrededig a bod hunaniaeth a rheng y llofnodwr yn eglur. Rwyf yn cefnogi'r farn honno yn gyhoeddus, ond rhaid sicrhau cytundeb ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am achredu gwahanol becynnau meddalwedd. Nid fy nghyfrifoldeb i yw gwneud hynny, ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynnu fod technoleg gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Pa fodd bynnag, byddaf yn barnu unrhyw atebion sydd yn fy marn i ddim yn cydymffurfio â'r gyfraith.

8.11
Rwyf yn fodlon gydag atebion Cyfarwyddwyr Cyffredinol gwasanaethau carchar Cymru a Lloegr a'r Alban. Mae'r ddau wedi cychwyn gweithredu'r diwygiadau a argymhellwyd gan fy rhagflaenydd. Mae llawer eto i'w gyflawni nes sicrhau cydymffurfiad boddhaol, ond rwyf yn hyderus fod byrddau gwaith pob cyfundrefn yn darparu'r arweiniad sydd ei angen. Yn fwyaf arbennig, rwyf â hyder yn y prosesau ar gyfer monitro gweithgaredd gudd a gyflawnir gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith ar yr ystâd carchardai.

8.12
Rwyf yn llai bodlon gyda'r trefniadau ar gyfer carchardai preifat sydd y tu allan i'm cyfrifoldeb i. Mae'r diffyg arolygiaeth rheoli (mewn perthynas â gweithgaredd gwyliadwriaeth gudd) ar gyfer y sefydliadau hyn yn effeithio ar allu sefydliadau'r wlad oherwydd bod carcharorion yn rheolaidd yn symud rhwng carchardai'r wlad a rhai preifat. Mae'r materion diogelwch a dyletswydd gofal sy'n ofynnol yn statudol ar gyfer CHIS a staff eraill, a'r angen am ffrydiau gwybodaeth gudd priodol rhwng carchardai, yn galw am osod gwell trefniadau arolygiaeth.

8.13
Bu angen imi orchymyn ail-arolygiad dwy asiantaeth gorfodaeth cyfraith y flwyddyn hon. Roeddwn yn fodlon gyda'r gwelliannau a wnaethpwyd.

9.
Arolygiadau o adrannau llywodraethol a chyrff perthnasol

9.1
Cyflawnwyd pymtheg arolygiad o Adrannau Llywodraethol a chyrff perthnasol. Dyma'r rhestr ohonynt:

• Adran ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
• Adran Weithredol Amgylchedd a Materion Gwledig yr Alban
• Swyddfa Ombwdsman yr Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon
• Swyddfa Masnachu Teg
• Gwasanaeth Gwrth Dwyll a Rheolaeth Diogelwch y GIG
• Adran Gwaith a Phensiynau
• Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
• Heddlu Milwrol Brenhinol
• Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol
• Asiantaeth Safonau Bwyd
• Scottish Accountant in Bankruptcy
• Swyddfa ar gyfer Safonau mewn Addysg.
• Awdurdod Annibynnol Cwynion yr Heddlu
• Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
• Comisiynwr Gwybodaeth

9.2
Mae rhai o'r awdurdodau hyn yn parhau i wneud defnydd sylweddol o wyliadwriaeth gyfeiriedig, gyda nifer llai yn defnyddio CHIS. Parhawyd i greu cyrff ymchwiliol sy'n weithredol yn genedlaethol ac yn gyffredinol rwyf yn fodlon gyda chanlyniadau'r arolygiadau. Pa fodd bynnag, mae cryn wahaniaeth yn safon y weithgaredd gudd. Gellir esbonio rhan o'r amrywiant hwn trwy ddefnydd is, hyfforddiant gwaelach ond yn fwyaf arbennig trwy'r diffyg ymrwymiad gan swyddogion gweithredol uwch. Rwyf yn cydnabod yr effaith mae buddsoddiad wedi ei gael ar gyllidebau o ran hyfforddiant gwell ac adnoddau penodedig, ond mae angen buddsoddiad os yw'r awdurdodau i gydymffurfio â deddfwriaeth.

9.3
Mae'r tueddiad i ddefnyddio gweithgaredd gudd fel dewis olaf yn parhau. Nid wyf yn hyrwyddo ymyrraeth uwch ym mhreifatrwydd unigolion, ond rwyf yn bryderus y gallai rhai awdurdodau fod â diffyg profiad, ac y gallai hyn arwain at weithgaredd a allai gael ei hystyried yn anghyfreithlon. Rwyf yn neilltuol o bryderus ynglŷn â'r diffyg rheolwyr CHIS mewn rhai awdurdodau a fyddai'n amlwg yn elwa o ddynesiad mwy proffesiynol.

9.4
Cyn belled â phosib, rwyf wedi newid yr amserlen arolygu er mwyn sicrhau fod cyfarwyddiaethau ac asiantaethau pob Adran Lywodraethol yn cael eu harolygu'r un pryd.

10.
Arolygiadau o awdurdodau lleol

10.1
Y flwyddyn hon cyflawnwyd 184 arolygiad awdurdod lleol, sef cynnydd arall ar y flwyddyn flaenorol (adolygwyd 151 awdurdod lleol yn ystod 2005/6). Nid oes gan yr awdurdodau hyn y pŵer i awdurdodi ymyrraeth eiddo na gwyliadwriaeth ymwthiol, a chânt eu harolygu yn llai aml nac asiantaethau gorfodaeth cyfraith oherwydd eu bod yn defnyddio eu pwerau yn llawer llai (gweler Atodiad E).

10.2
Er bod safon y cydymffurfiad cyffredinol gyda darpariaethau statudol yn parhau i wella, fe'm siomwyd gan yr awdurdodau lleol na weithredodd argymelliadau arolygiadau blaenorol. Un amcan sylfaenol fy arolygiadau yw gwella safonau a chynorthwyo'r awdurdod i warchod ei weithgareddau rhag beirniadaeth yn y llys. Os na wrandawir ar y cyngor hwn, yna ni ddylai'r un awdurdod gael ei synnu pan gaiff ei geryddu.

10.3
Yn gyffredinol mae safon polisïau ysgrifenedig a gweithdrefnau wedi gwella, ac mae nifer y gwallau a nodwyd yn yr adroddiad y flwyddyn ddiwethaf wedi gostwng. Ond mae'n ymddangos nad oedd rhai awdurdodau yn disgwyl yr arolygiadau dyfnach a gyflawnwyd y flwyddyn hon. Mae fy Nghomisiynwyr Gwyliadwriaeth Gynorthwyol a'm Harolygwyr wedi darganfod mewn nifer fechan o achosion fod rhai awdurdodau wedi cynhyrchu polisi – yn dilyn arolygiad cynharach – ond wedi methu â sicrhau fod y polisi yn cael ei ddilyn. Achos pryder arall yw'r nifer o awdurdodau sydd wedi diystyru Offeryn Statudol 2003 Rhif 3171 sy'n newid y rhesymau yn rhan 28(3) o Ddeddf 2000 dros gyhoeddi awdurdodiad. Fy marn i felly yw na ellir dibynnu ar rai awdurdodau i fod yn gyfarwydd â newidiadau i ddeddfwriaeth.

10.4
Fel yn y gorffennol, defnyddir gweithgaredd gudd yn fwyaf aml gan adrannau sy'n delio gyda safonau masnachol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chan y rhai sy'n gweinyddu budd-daliadau. Ond gwelwyd cynnydd yn y defnydd o weithgaredd gudd yn ymwneud â monitro sŵn. Bu'n rhaid imi wrth-ddweud cyngor gan eraill sy'n gor-symleiddio yr ystyriaethau perthnasol, ac sydd mewn dull annoeth yn annog rhai mathau o weithgaredd heb awdurdodiad priodol. Mewn rhai achosion byddai hysbysiad agored fod monitro'n debyg o gymryd lle yn fwy cyfatebol ac yn golygu na fyddai angen awdurdodiad.

10.5
Er fy mod i'n fodlon gyda'r gwelliant cyffredinol yn amlder hyfforddiant, mae'r ffaith fod llawer ohono yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr didwyll ond heb wybodaeth ddigonol yn parhau i achosi pryder imi. Mae llawer o'r hyfforddiant yn ymddangos yn arwynebol a ddim yn mynd i'r afael yn ddigonol gyda meysydd cydymffurfiad allweddol. Mae mentrau sector preifat i'w croesawu, ond byddai rhyw ffurf o achrediad a chydlyniaeth ganolog yn well gennyf er mwyn codi a chynnal safonau.

10.6
Mae awdurdodiad CHIS gan awdurdodau lleol yn anghyson, gyda llawer o awdurdodau yn amharod i fuddsoddi yn y maes gweithgaredd gudd hwn oherwydd yr angen am

hyfforddiant arbenigol. Y polisi arferol ar gyfer llawer o awdurdodau yw osgoi defnyddio CHIS yn llwyr neu ddibynnu ar yr heddlu. Mae fy arolygiadau, pa fodd bynnag, wedi nodi fod rhai awdurdodau, yn ôl pob golwg, yn cyflawni gweithgaredd CHIS heb awdurdodiad priodol. Yn gyffredinol anwybodaeth yw'r rheswm am hyn yn hytrach nag anniffuantrwydd. Mae'r defnydd cyfreithiol o CHIS yn declyn defnyddiol yn arfogaeth awdurdod. Ond dylid sicrhau nad yw'r gallu yn cael ei golli o ganlyniad i ddiffyg buddsoddiad yn y sgiliau angenrheidiol. Mae'r Comisiynwyr Goruchwyliaeth wedi trafod yr opsiwn o gomisiynu eraill i gyflawni'r gwaith hwn, ond daethpwyd i'r casgliad y byddai hyn yn ôl pob golwg yn anghyfreithlon.

10.7
Achos pryder arall yw methiant llawer o awdurdodau lleol i ddarparu Cofnod Canolog gydymffurfiol llawn o awdurdodiadau, fel sy'n ofynnol gan y Codau Ymarfer. Mae llawer yn cadw dogfennau llawysgrif mewn rhwymwyr cylch, ond golyga hyn na ddarperir gwybodaeth ar yr holl weithgareddau cudd a gyflawnir neu sydd wedi eu cyflawni, ac ni ellir dod o hyd i'r wybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol yn gyflym. Mae Cofnod Canolog gwael fel arfer yn arwydd o arolygiaeth aneffeithiol a diffyg diddordeb gan weithredwyr awdurdod lleol. Rwyf yn annog y defnydd o ffurflenni tablaidd naill ai mewn fformat llawysgrif neu wedi ei ddigido.

10.8
Rwyf am ailadrodd rhybudd fy rhagflaenydd y dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r ffaith y gall rheolwyr uwch adrannau sydd ddim yn gwneud defnydd mawr o RIPA fod ag angen hyfforddiant cyn gallu ystyried yn llawn yr holl faterion sydd angen eu hystyried cyn rhoi awdurdodiadau. Yn aml nid oes digon o brofiad gweithredol ganddynt. Rhaid i weithredwyr uwch sicrhau fod trafodaeth addas yn cymryd lle er mwyn sicrhau penderfyniadau cytbwys, a bod y Swyddog Awdurdodi yn ddigon uchel i herio ynghyd â gwrando ar ymarferwyr gweithredol. Disgwyliaf i Swyddogion Awdurdodi gael eu penodi ar sail gallu, a ni ddylid rhoi cyfrifoldeb arbennig iddynt oherwydd eu swyddogaeth yn unig.

11.
Datblygiadau technolegol

11.1
Rwyf bellach yn fodlon fod swyddogion awdurdodi mewn asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn cymryd sylw o adroddiadau dichonolrwydd technoleg a gynhyrchwyd gan staff gyda chymwysterau addas cyn awdurdodi defnydd offer technegol. Rwyf hefyd yn fodlon fod lefelau uchel o ddiogelwch a goruchwyliaeth offer technegol wedi eu cynnal. Rwyf yn parhau i dderbyn rhai adroddiadau yn nodi fod offer heb ei ddefnyddio na'i adfer yn gywir, ond ystyriaf hyn fel prawf positif fod prosesau rheoli yn gweithio a bod y prosesau yn dryloyw i reoliad.

11.2
Fe'm hysbyswyd fod rhai awdurdodau wedi holi eu heddluoedd lleol ynglŷn â chaffael technoleg olrhain. Yn amlwg nid oes gan awdurdodau lleol yr hawl i ddefnyddio technoleg o'r fath oherwydd byddai'n golygu ymyrraeth eiddo, a gallai mewn rhai achosion arwain at wyliadwriaeth ymwthiol. Byddaf yn ceryddu unrhyw awdurdod lleol sy'n ceisio defnyddio gwarchodiad RIPA ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

11.3
Mae gwelliannau technolegol yn parhau i gynyddu gallu'r rhai sydd yn gyfrifol am fynd i'r afael ac ymladd trosedd. Ond, fel y soniwyd yn yr adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, mae cyflymder newid yn aml yn rhagori ar gyfyngderau deddfwriaeth bresennol. Mae fy safbwynt ar Adnabyddiaeth Awtomatig Rhif Car yr un â'm rhagflaenydd, ac rwyf o'r farn fod angen deddfwriaeth i ddatrys rhai materion sydd ynghlwm â gallu technolegol uwch.

11.4
Ni ddylid defnyddio galluoedd eraill fel samplo DNA symudol yn gudd heb awdurdod cymwys, a dylai swyddogion awdurdodi bob amser sicrhau fod ymgeiswyr yn cynnwys manylion ynglŷn â'r weithgaredd arfaethedig a bod dogfennaeth RIPA yn cofnodi'n gywir yr hyn a awdurdodwyd.

12.

Adolygiad RIPA

12.1
Rhoddwyd y cyfle bellach i mi a'r Comisiynwyr ddatgan ein barn ynglyn â'r adroddiad a'r argymhellion yn dilyn yr Adolygiad RIPA. Tynnais sylw at y ffaith fod yr Adolygiad yn canolbwyntio ar asiantaethau gorfodaeth cyfraith, er y bydd newidiadau deddfwriaethol yn effeithio ar nifer fawr o gyrff sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 1 RIPA. Pwysleisiais ein barn nad yw biwrocratiaeth yn deillio o'r ddeddfwriaeth na'r Codau. Yn hytrach yr asiantaethau gorfodaeth cyfraith sy'n bennaf gyfrifol amdano, trwy ailadrodd yr un datganiadau mewn rhannau gwahanol o'r ffurflenni. Yn dilyn hyn cyfarfûm â Chadeiryddion y Grwpiau Llywio a Chyfoedion Ymchwiliadau Cudd ACPO, ac fe'm sicrhawyd for yr argymhellion ynglŷn â darpariaeth cyngor ac arweiniad canolog dibynadwy yn cael eu dilyn. Fy unig bryder yw'r ansicrwydd ynglyn â phwy fydd yn darparu'r cyngor hwn, ac felly pa mor ddibynadwy ydyw. Rwyf hefyd yn falch iawn fod awdurdodau lleol bellach yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar gasgliadau'r Adolygiad ac i fynychu Fforymau Deiliaid Diddordeb. Byddaf yn parhau i fonitro gwelliant.

13.

Cynghreiriau strategol

13.1
Cychwynnwyd ar y broses o gyfuno gallu gweithredol er mwyn optimeiddio adnoddau ac arbenigrwydd. Ar lefel genedlaethol crëwyd unedau Gwrthderfysgaeth ac ar lefel awdurdod lleol gwelwyd nifer gynyddol o gyfundrefnau cyfunol, gyda dau awdurdod neu fwy yn cyfuno i ddarparu gwasanaethau penodedig. Mewn llawer i achos mae'r weithgaredd a gyflawnir yn cynnwys gwyliadwriaeth gudd ar wahanol lefelau o ymyrraeth.

13.2
O ran egwyddor rwyf yn gefnogol i'r mentrau hyn. Pa fodd bynnag, rwyf hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith fod y ddeddfwriaeth yn mynnu mai'r awdurdodau hynny a restrir yn Neddf 2000 (diwygiedig) yn unig sydd â'r hawl i gyflawni gweithgaredd gudd, er mwyn osgoi gweithdrefnau cymhleth. Ni dderbyniais y sicrwydd angenrheidiol yn ystod fy ymweliadau â rhai o'r cynghreiriau fod gweithgareddau cudd yn cael eu cyflawni yn dilyn hysbysu'r holl awdurdodau gofynnol yn unig. Ni ellir cyfri yr un o'r awdurdodau cyfunedig hyn fel awdurdodau perthnasol yn ystyr y Ddeddf, ac felly mae angen ateb boddhaol cyn y gallaf ddarparu'r arolygaeth fydd yn cyflawni fy ymrwymiadau statudol.

14.

Y flwyddyn i ddod

14.1
Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd uchod, fy argraff gyffredinol yw bod deddfwriaeth wedi gwella rheolaeth a goruchwyliaeth gweithgaredd gudd gan awdurdodau cyhoeddus yn fawr. Ni ddylid bod yn fodlonus ar unrhyw gyfrif, ond dylai'r ddeddfwriaeth sicrhau'r cyhoedd nad yw preifatrwydd unigolion yn cael ei gyfaddawdu'n anghyfreithlon. Dylai unrhyw weithgaredd anghyfreithlon gael ei riportio i mi mor gyflym â phosib, ac yn gyffredinol fe'm bodlonwyd gyda'r esboniadau a roddwyd a'r mesurau adferol a gymerwyd. Mae riportio gweithgaredd anghywir yn ddi-oed yn arwydd positif o gyfundrefn arolygiaeth dryloyw.

14.2
Oherwydd cynlluniau'r Swyddfa Gartref ar gyfer cyfuno lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr, bu oedi mewn perthynas â gweithredu argymhellion arolygiadau cynharach ar gyfer gwella safonau cydsyniad. Byddaf nawr yn disgwyl i luoedd ail-ganolbwyntio ar y materion a ddygais i'w sylw.

14.3
Gofynnais i'm Prif Arolygydd arolygu'r Strategaeth Arolygiad SCG er mwyn optimeiddio'r adnoddau arolygu sydd ar gael i mi a sicrhau fod y broses arolygiad nid yn

unig yn cwrdd â'm hymrwymiadau statudol ond hefyd yn darparu gwasanaeth defnyddiol i awdurdodau cyhoeddus. Mae pob awdurdod cyhoeddus bellach yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, a'r sialens nawr yw sicrhau fod pawb yn elwa o ymarfer da eraill. Mae'n amlwg mai fy nyletswydd arolygu i yw'r un sy'n gwasanaethu'r diddordeb cyhoeddus orau oherwydd fy annibyniaeth statudol a fy niffyg cyfranogiad mewn gwneuthuriad polisi.

14.4
Mae'r awdurdodau cyhoeddus canlynol wedi eu dynodi fel awdurdodau cyhoeddus perthnasol ac wedi eu cynnwys yng nghynllun arolygu 2007/2008:

• Comisiwn Gofal Iechyd
• Awdurdod Trwyddedu 'Gangmasters'

Ychwanegiad A

AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**
Cyfanswm nifer yr awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	**2,072**	**138**	**2,210**	**2,177**	**133**	**2,310**	**2,195**	**116**	**2,311**

AWDURDODIADAU BLAENOROL

	2004-2005			2005-2006			2006-2007		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**
Nifer o achosion angen awdurdodiad	**232**	**17**	**249**	**220**	**7**	**227**	**173**	**15**	**188**
Achosion angen awdurdodiad blaenorol yn ôl categori:									
Annedd	**162**	**11**	**173**	**158**	**5**	**163**	**130**	**10**	**140**
Swyddfa	**33**	**5**	**38**	**27**	**1**	**28**	**25**	**2**	**27**
Llofft gwesty	**35**	**1**	**36**	**33**	**1**	**34**	**16**	**1**	**17**
Materion dan reolaeth braint gyfreithiol	**0**	**0**	**0**	**2**	**0**	**2**	**1**	**0**	**1**
Deunydd newyddiadurol cyfrinachol	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Gwybodaeth bersonol gyfrinachol	**2**	**0**	**2**	**0**	**0**	**0**	**1**	**2**	**3**

Ychwanegiad B

DADANSODDIAD O'R AWDURDODIADAU YN ÔL TROSEDD A RODDWYD DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF*

	2004-2005			2005-2006			2006-2007		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**
Ymosodiad	**9**	**2**	**11**	**15**	**0**	**15**	**6**	**0**	**6**
Byrgleriaeth/lladrad	**96**	**0**	**96**	**109**	**0**	**109**	**96**	**0**	**96**
Cynllwyn	**10**	**2**	**12**	**12**	**0**	**12**	**41**	**0**	**41**
Delio gyda chyffuriau	**1157**	**105**	**1262**	**1198**	**101**	**1299**	**1333**	**84**	**1417**
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	**108**	**4**	**112**	**119**	**2**	**121**	**157**	**3**	**160**
Herwgipiad/cribddeiliaeth	**34**	**0**	**34**	**35**	**0**	**35**	**66**	**7**	**73**
Golchi arian	**56**	**5**	**61**	**67**	**0**	**67**	**53**	**0**	**53**
Llofruddiaeth/colli bywyd	**164**	**8**	**172**	**161**	**8**	**169**	**140**	**11**	**151**
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	**47**	**0**	**47**	**41**	**0**	**41**	**34**	**1**	**35**
Osgoi treth	**48**	**0**	**48**	**56**	**0**	**56**	**37**	**0**	**37**
Terfysgaeth	**212**	**9**	**221**	**215**	**9**	**224**	**114**	**2**	**116**
Arall*	**168**	**5**	**173**	**151**	**11**	**162**	**118**	**8**	**126**

*Dim ond y mathau mwyaf cyffredin o drosedd a restrir, gan gynnwys llwgrwobrwyaeth, llygredigaeth a throseddau rhywiol. O ganlyniad, efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a roddwyd.

Ychwanegiad C

AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN II DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH 2000 A DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH (YR ALBAN) 2000 YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2004-2005			2005-2006			2006-2007		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**
Cyfanswm rhif yr awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	**437**	**27**	**461**	**418**	**17**	**435**	**329**	**21**	**350**
Achosion yn ôl categori:									
Cerbyd preifat	**171**	**10**	**181**	**199**	**8**	**207**	**157**	**10**	**167**
Adeilad preswyl	**263**	**17**	**280**	**219**	**9**	**228**	**172**	**11**	**183**

Ychwanegiad D

DADANSODDIAD YN ÔL TROSEDD O AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN II DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH 2000 A DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH (YR ALBAN) 2000 YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2004-2005			2005-2006			2006-2007		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**	**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon**	**Alban**	**Cyfanswm**
Ymosodiad	**11**	**0**	**11**	**7**	**0**	**7**	**2**	**0**	**2**
Byrgleriaeth/lladrad	**13**	**1**	**14**	**18**	**0**	**18**	**17**	**0**	**17**
Cynllwyn	**6**	**0**	**6**	**6**	**0**	**6**	**9**	**0**	**9**
Delio gyda chyffuriau	**156**	**13**	**169**	**166**	**11**	**177**	**156**	**11**	**167**
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	**17**	**0**	**17**	**23**	**0**	**23**	**10**	**1**	**11**
Herwgipiad/cribddeiliaeth	**11**	**0**	**11**	**13**	**1**	**14**	**8**	**2**	**10**
Golchi arian	**2**	**0**	**2**	**4**	**0**	**4**	**3**	**0**	**3**
Llofruddiaeth/colli bywyd	**139**	**8**	**147**	**111**	**3**	**114**	**83**	**5**	**88**
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	**3**	**0**	**3**	**2**	**0**	**2**	**6**	**0**	**6**
Osgoi treth	**3**	**0**	**3**	**6**	**0**	**6**	**0**	**0**	**0**
Terfysgaeth	**15**	**3**	**18**	**14**	**0**	**14**	**1**	**0**	**1**
Arall*	**51**	**2**	**53**	**41**	**2**	**43**	**34**	**2**	**36**

*Dim ond y troseddau mwyaf cyffredin a restrir, gan gynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth a throseddau rhywiol. O ganlyniad, efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a roddwyd.

**Mae troseddau yn cynnwys llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth a throseddau rhywiol.

Ychwanegiad E

Blaenoriaethau arolygu

I'w harolygu'n flynyddol
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Heddlu Niwclear Sifil
Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwasanaeth Carchar EM
Tollau Thramor a Chartref EM
Asiantaeth Gororau a Mewnfudiad
Gwasanaeth Carchar Gogledd Iwerddon
Swyddfa Masnachu Teg
Heddluoedd Cymru a Lloegr
Heddlu Gogledd Iwerddon
Heddluoedd yr Alban
Heddlu Porthladd Dover
Heddlu Porthladd Lerpwl
Asiantaeth Trosedd Ddifrifol wedi'i Threfnu
Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau'r Alban
Grŵp Y Post Brenhinol ccc
Gwasanaeth Carchar Albanaidd

I'w harolygu bob yn ail flwyddyn
Heddlu ac Asiantaeth Warchod y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol
Heddlu Milwrol Brenhinol
Heddlu'r Awyrlu Brenhinol

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)
Adran ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran Gwaith a Phensiynau
GIG yr Alban (Adran Gwasanaethau Cenedlaethol)
Adran Fasnach a Diwydiant
Adran Drafnidiaeth (gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Dreifio)
Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdod Annibynnol Cwynion yr Heddlu.
Awdurdodau Lleol – Unedol, Metropolitan, Bwrdeistref Llundain, Cynghorau Albanaidd a Chymraeg
Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Gwrth Dwyll a Rheolaeth Diogelwch y GIC
Swyddfa Ombwdsman yr Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon
Asiantaeth Taliadau Gwledig
Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd Albanaidd

Adran Weithredol Amgylchedd a Materion Gwledig yr Alban
Swyddfa Twyll Difrifol
Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredydd a Cherbyd

I'w harolygu bob 3 mlynedd
Comisiwn Elusen
Asiantaeth Cynnal Plant
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA)
Asiantaeth Safonau Bwyd
Comisiynwr Gwybodaeth
Awdurdodau Lleol – Cynghorau Sirol a Dosbarth
Asiantaeth Reoli Meddyginiaethau a Nwyddau Gofal Iechyd (MHRA)
Swyddfa Cyfathrebiadau
Swyddfa ar gyfer Safonau mewn Addysg (OFSTED)
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
Scottish Accountant in Bankruptcy

Blaenoriaeth arolwg i'w phenderfynu wedi i'r arolygiad cyntaf gael ei gyflawni
Comisiwn Gofal Iechyd
Y Bwrdd Hapchwarae
Awdurdod Trwyddedu 'Gangmasters'.
Ysbytai arbennig yn Ashworth, Broadmoor a Rampton

Ychwanegiad F

Gwariant SGC ar gyfer Ebrill 2006 – Mawrth 2007

Disgrifiad	Cyfanswm cost £
Costau staff a recriwtio	**1,294,098**
Teithio a chynhaliaeth	**134,170**
Hyfforddiant a datblygiad	**2,445**
Cynadleddau a chyfarfodydd	**8,762**
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	**57,248**
Llyfrau, papurach ac argraffu	**25,395**
Offer swyddfa	**3,215**
Tâl post a chostau negesydd	**367**
Costau llety	**66,568**
Cyfanswm	1,592,268

Ychwanegiad G

AELODAU'R SWYDDFA COMISIYNWYR GWYLIADWRIAETH - MAWRTH 2007

Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth
SYR CHRISTOPHER ROSE

Comisiynwyr Gwyliadwriaeth	Comisiynwyr Gwyliadwriaeth Cynorthwyol	Prif Arol. Gwyliadwriaeth	Ysgrifenyddes SCG
		SAM LINCOLN	JENNIFER RIACH
			JOANNE BREEN
ARGLWYDD COULSFIELD	ARGLWYDD COLVILLE O CULROSS	RICHARD ALLSOPP Arolygydd (rh/a)	SCG GI
		GRAHAM SCOTT Rheolwr Swyddfa SCG	JANE SHEEHAN Ysgrif. Bersonol
SYR LIAM McCOLLUM	MR JEREMY FORDHAM	ANDREW MACKIAN Arolygydd	
SYR CHARLES McCULLOUGH	DR COLIN KOLBERT	IRWIN NETTLESHIP Arolygydd (rh/a)	DARREN FEARNLEY Rheolwr Gwaith Achos a Gweinyddol
SYR CHARLES MANTELL		LESLIE TURNBULL Arolygydd (rh/a)	
			HENRIETTA HUTCHEON Swyddog Gwaith Achos
SYR PHILIP OTTON		CLARE RINGSHAW-DOYLE Arolygydd	RAF SABATER Swyddog Caffaeliad a Chyllid
ARGLWYDD SUTHERLAND		DAVID WILSON Arolygydd (rh/a)	JOAN SOOLE (tros dro) Swyddog Cymorth Gwein.
		GRAHAM WRIGHT Arolygydd	JEREMY DIXON Cydlynydd Arolygiad
			JOHN BONNER Swyddog Cymorth Arolygiadau
			YVETTE MOORE Swyddog Cymorth Arolygiadau

Aelodau o'r SCG a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd:
Syr Andrew Leggatt, Prif Gomisiynydd Goruchwyliaeth
Syr Michael Hutchinson, Comisiynydd Goruchwyliaeth
Stephen James, Prif Arolygydd Goruchwyliaeth
Fatima Tholley, Swyddog Gwaith Achos

PO Box 29105
Llundain SW1V 1ZU
Ffôn: 020 7828 3421
Ffacs: 020 7592 1788
www.surveillancecommissioners.gov.uk

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael:
Ar-lein
www.tsoshop.co.uk
Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebwch trwy ffonio'r Llinell Ffôn Seneddol Cost-isel 0845 7 023474
E-bostiwch bookorders@tso.co.uk
Ffôn destun 0870 240 3701
Siopau TSO
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588
The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866
E-bostiwch bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd bookshop.parliament.uk
TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill